

Helo, a chroeso i bodlediad 'Clust i'r Ddaear' gyda fi, Aled Jones. Dyma bennod rhif 34 lle fyddwn ni'n trafod sut i fynd ati i gynllunio busnes a pharatoi ar gyfer yr holl newidiadau sy'n wynebu'r diwydiant ar hyn o bryd. Nid oes prinder o newid. Rydym yn dechrau pennod newydd yn ein perthynas masnach gyda Ewrop, mae yna dorriadau yn mynd i fod yn y taliad sylfaenol dros y blynyddoedd nesaf, a system hollol newydd o gymorth daliadau yn cael ei chyflwyno, sy'n gwobrwyo ffermwyr am waith amgylcheddol. Felly, mae yna ddigon i'w drafod yn y bennod hon, ac mi fues i'n ddigon lwcus i ddal lan gyda rhywun sy'n wybodus iawn yn y maes yma ac yn adnabyddus o fewn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru, sef Euryn Jones, Dirprwy Bennaeth Amaeth HSBC a Chadeirydd Bwrdd Strategol Cyswllt Ffermio.

Euryn Jones, croeso i bodlediad 'Clust i'r Ddaear', a diolch am gymryd yr amser i ymuno â ni. Yn gyntaf Euryn, sut ydych chi'n cadw? Fel arfer, byddem wedi cael cyfle i ddal lan mewn ryw sioe neu gynhadledd, ond nid felly y bu. Mae hi wedi bod yn flwyddyn rhyfedd iawn i ni gyd, ond sut mae pethau gyda chi Euryn?

Wel, run fath a nifer o bobl mewn llawer o feysydd. Dwi wedi bod yn gweithio o adref yn gyfan gwbl ers mis Mawrth y llynedd. Felly, yn naturiol mae rhywun yn hiraethu am gael cyfarfod rhywun wyneb yn wyneb, ond wrth gwrs, mae'r dechnoleg, Zoom a Teams ac ati yn ein galluogi i gadw mewn cysylltiad efo ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ac ati. Mae'n gyfnod rhyfedd i ni gyd, yn dydy?

Ydy, a dwi'n credu ein bod wedi dysgu sgiliau newydd dros y misoedd diwethaf. Mae geiriau fel Zoom a Teams ac 'you're on mute' yn eiriau cyffredin iawn.

Yn hollol.

Rydych chi'n gwisgo dwy het, mewn ffordd, ar y podlediad yma Euryn. Rydych chi'n gweithio i fanc HSBC wrth gwrs fel Dirprwy Bennaeth Amaeth ar draws y Deyrnas Unedig, ac rydych chi hefyd yn Gadeirydd ar Fwrdd Strategol Cyswllt Ffermio. Dwi'n siwr fod y ddwy rol yn rhoi trosolwg da i chi o beth sy'n digwydd yn y diwydiant, ac wrth gwrs, sut mae paratoi ar gyfer yr holl newidiadau sydd o'n blaenau, a dyna beth fyddwn ni'n ei drafod yn y podlediad yma sef cynllunio busnes a dyfodol ffermio yng Nghymru. Mae yna ddipyn i'w drafod. Cyn hynny Euryn, soniwch dipyn am eich cefndir a'ch gyrfa hyd yma.

Wel, mi ges i fy magu ar fferm yn Nyffryn Conwy, yn y bryniau uwchben Llanrwst. Er ein bod ni'n gymharol uchel, roedden ni'n godro, cynhyrchu llaeth oedd y brif fenter, cadw defaid ac ychydig o dyrchw at y Nadolig a rhyw hanner dwsin o garafannau hefyd. Wedyn, mi es i'r Brifysgol yn Aberystwyth i wneud gradd mewn amaethyddiaeth, ond wedyn ffeindio fod gen i fwy o ddiddordeb yn yr ochr economeg na'r ochr wyddonol, ac yna newid i wneud gradd mewn economeg amaethyddol. Ar ôl hynny, mi fues i'n eithriadol o lwcus o gael cynnig swydd fel darlithydd rheolaeth fferm yng Ngholeg Amaethyddol Cymru yn Llanbadarn ar gyrion Aberystwyth. Roeddwn i'n ddarlithydd ifanc iawn ac mi ges i gyfnod gwerth chweil ac wedi ei fwynhau'n arw. Wedyn, ychydig dros 20 mlynedd yn ôl, mi ges i'r cyfle i symud i'r byd bancio amaethyddol ac yn y fan honno dwi hyd heddiw.

Wrth gwrs, rydych chi wedi gweithio ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n siwr o fod yn ddiddorol ynddo'i hun? Cymharu busnesau, cymharu ffermydd rhwng Cymru, Lloegr, Yr Alban a mannau eraill, mae hynny'n siwr o fod yn ddiddorol iawn fel rhan o'ch gwaith chi.

Ydy. Dwi wedi bod yn lwcus iawn. Dwi wedi byw yng Nghymru, wel dwi wedi byw yng Ngheredigion ers i mi fod yn y Coleg yn Aberystwyth, ond wedi cael y cyfle i grwydro dipyn o fewn Prydain, wel o fewn Y Deyrnas Unedig i ddweud y gwir, ac ymweld â ffermydd ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon a rhyw ychydig yn Yr Alban. Mae o'n hynod o ddiddorol. Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai'r hyn sy'n fy nharo i i ddweud y gwir yw'r tebygrwydd rhwng ffermydd, yn hytrach na'r gwahaniaeth rhyngddynt.

Dwi'n cofio mynd ar fferm i fyny yn 'County Durham', fyny yn 'Teesdale'; ffermydd mynydd, defaid mynydd, cadw digon o wartheg. Roedd o mor debyg i fod mewn cymdeithas y ffermwyr mewn ardal yr ucheldir yma yng Nghymru, ond roedd yr iaith yn wahanol wrth gwrs. Heblaw am hynny, roedd rhywun yn teimlo mor gartrefol yno. Ond, os mae rhywun yn mynd i Ddwyrain Lloegr, ac i East Anglia a'r llefydd 'ma lle mae natur y ffermio yn wahanol, yna mae rhywun yn teimlo fod y diwylliant ffermio yn wahanol hefyd. Rhyw deimlad sydd gen i fod natur y ffermio yn arwain at fwy o wahaniaeth na'r rhan o'r wlad lle maen nhw'n digwydd bod.

Alla'i ddychmygu hynny. Yng Nghymru, ffermio anifeiliaid yw'r hyn yr ydym yn ei wneud fwyaf, felly mae mynd i Loegr, Gogledd Lloegr a'r Alban, yn caniatáu i chi allu uniaethu gyda'r ffermwyr hynny, uniaethu â'r cymunedau gwledig. Dwi'n gallu gweld lle mae'r tebygrwydd yn yr hyn yr ydych wedi ei sôn, ac wrth ddod i adnabod ffermwyr dros y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n bwysig. Ond, lle mae yna debygrwydd mewn ambell i ystyr, mae yna wahaniaethau hefyd ac mae mwy o wahaniaethau yn mynd i ddod ynghylch polisïau wrth i ni ddatblygu rhai newydd ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd yn gyfan gwbl. Roedd o'n ddi-ddorol iawn i ddarllen un o'ch erthyglau diwedddara Euryn, ar ran yr NFU. Allwch chi sôn am y polisïau newydd yma sy'n mynd i ddisodli'r taliad sylfaenol yng Nghymru a Lloegr? Hefyd, bod yr amserlen i hynny'n wahanol iawn, rhwng Cymru a Lloegr. Mae ffermwyr Lloegr yn debygol o weld toriadau yn eu taliadau sylfaenol eleni, ond nid yw ffermwyr Cymru am weld unrhyw fath o doriad tan 2024, ac mae hynny yn fantais i fusnesau yng Nghymru.

Ydy, yn sicr Aled. Dwi'n cytuno. O ran safbwynt polisi amaethyddol, mae'r gwahaniaethau rhwng y llywodraeth yng Nghymru a'r llywodraeth yn Lloegr, amryw o wahaniaethau wedi bod dros amser, ond dwi'n meddwl ein bod am weld mwy a mwy o wahaniaethau yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae ffermwyr yn Lloegr am wynebu torriadau sylweddol iawn yn nhaliad sengl, yn cychwyn eleni, ac erbyn 2024 mi fydd y taliad sengl yn Lloegr wedi gostwng rhywle rhwng 50% a 70% gan ddiybnyu ar faint y taliad. Yma yng Nghymru, mae Lesley Griffiths wedi cyhoeddi ei bod hi'n annhebygol fod y taliad sengl yn cael ei leihau yma am ryw dair neu bedair blynedd. Wrth gwrs, mi fydd yna etholiad eleni, a gall fod yna newid yn y llywodraeth, ond y tebygolrwydd yw, er bod Cymru a Lloegr o bosib yn mynd i'r un cyfeiriad, mae'r cyflymder symud yna yn wahanol iawn. A beth fyswn i'n ei obeithio yw ei fod yn rhoi'r cyfle i ni yma yng Nghymru, ac yn sicr i'r llywodraeth yma yng Nghymru, i daro golwg dros y ffin i weld sut mae pethau'n mynd yno, ac efallai i ddysgu gwersi ar ba bolisïau sy'n effeithiol a rhai sy'n llai effeithiol. Mae'n fanteisiol, dwi'n meddwl, i ffermwyr yng Nghymru fod yna gyfnod iddynt baratoi ar gyfer y newid. Os dwi'n gywir yn y ddamcaniaeth mai mynd i'r un cyfeiriad byddwn ni, yna dwi'n meddwl fod cael yr amser yna i baratoi ar gyfer y dyfodol yn mynd i fod o werth i ni yma yng Nghymru.

Rydym yn clywed am hynny'n aml, y pwysigrwydd i fusnesau baratoi ar gyfer y newid yma. Rydym hefyd yn clywed ffermwyr yn gofyn 'sut allwn ni baratoi? Mae cymaint o bethau nad ydym yn ei wybod o hyd'. Sut ydych chi'n ymateb i hynny? Pa fath o bethau y gall ffermwyr ei wneud nawr?

Wel, fy nheimlad i yw, yn y dyfodol mi fydd ffermwyr llwyddiannus yn gorfod anelu i gyflawni dau beth. Dwi'n meddwl bydd angen iddyn nhw ffermio yn effeithiol, hynny yw cynhyrchu bwyd a'u bod yn cynhyrchu bîff, defaid, llaeth ac wyau, bydd angen i'r ochr amaethyddol fod mor effeithiol â phosib. Ar y llaw arall, rhaid edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer arian cyhoeddus (sy'n dod ar gyfer nwyddau cyhoeddus ac ati). Ar yr ail bwynt, dwi'n ei dderbyn yn gyfan gwbl, tan fyddwn ni'n gwybod llawer iawn mwy am fanylion y cynlluniau o ran beth mae'r llywodraeth yn mynd i ddod i mewn, rheoli'r tir yn gynaliadwy. Nid oes gymaint â hynny o waith paratoi y gall ffermwyr ei wneud, ond o ran yr ochr ffermio masnachol dwi'n teimlo fod yna nifer o bethau y gallant ei wneud i baratoi drwy sicrhau eu bod mor effeithlon ag sy'n bosib. Dwi wastad yn ymwybodol, mae'n hawdd iawn i rywun, fel fi sy'n eistedd yn fan hyn, ddweud rhywbeth fel yna, ond y gwir amdani yw ein bod yn gwybod ers amser fod y gwahaniaeth mewn effeithiolrwydd ffermydd rhwng y gorau a'r gwanaf yn

fawr, ac yn cynyddu. Yn sicr, mae yna le i nifer edrych ar sut i wneud pethau'n wahanol. Felly, dyna sut dwi'n meddwl y gallant baratoi ar gyfer y dyfodol yn bennaf.

Dwi'n cofio, mi glywais siaradwr yn siarad mewn rhyw gynhadledd ac fe ddisgrifiodd y peth yn Saesneg fel 'why defer being better?' pan oedden nhw'n ystyried y pethau y gallwn ei wneud nawr. Os oes modd i chi wella effeithlonrwydd y busnes, wel gwnewch o nawr!

Mae hynny'n ardderchog. Mi rydw i'n cofio, dwi ddim yn cofio pwy ddywedodd o. Mi roedd o'n ardderchog yn doedd? Y gwir amdani yw bod y system bresennol o daliad sengl wedi galluogi rhai i ffermio'n weddol gyffredin ac i fedru goroesi. Yn y dyfodol, dwi ddim yn hyderus y bydd hynny'n bosib. Mi fydd hi'n angenrheidiol i bobl fod yn ffermio'n wirioneddol effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn llwyddo.

Ydych chi'n croesawu'r cyfeiriad newydd yma? Mae hi'n dipyn o newid o'r system hanesyddol y taliad sylfaenol ac yn symud i gynllun ffermio cynaliadwy lle mae'r Llywodraeth am wobrwyo'r ffermwyr am ddarparu nwyddau cyhoeddus. Ydych chi'n croesawu hynny fel datblygiad cadarnhaol i'r diwydiant?

Fel safbwynt hollol bersonol, dwi'n eithaf cyfforddus o ran cyfeiriad y polisi mae'r Llywodraeth yn ei anelu tuag ato. Yr hyn dwi'n ei feddwl sy'n hanfodol yw bod y polisiau yna yn cael ei gweithredu mewn ffordd effeithiol, ymarferol ac mewn ffordd sy'n mynd i fod yn hwylus i ffermio. Y ffordd mae'r polisiau yma yn cael eu rhyddhau yw fy mhryder i. O ran y cyfeiriad, dwi'n meddwl fod rhaid sicrhau fod yr arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nwyddau cyhoeddus. Yn y pendraw, fy nheimplad i yw bod hynny yn creu'r holl system yn fwy cynaliadwy, yn yr ystyr fod posib ei gyfiawnhau'n wleidyddol. Y gwir amdani yw bod yna gystadleuaeth am arian cyhoeddus a galw am wariant ar iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Nid yw hwnnw am leihau. Felly, mae'n mynd i fod yn hanfodol i'r diwydiant allu cyfiawnhau arian cyhoeddus y maen nhw'n ei dderbyn gan y trethdalwr. Fy nheimplad i yw ei fod yn mynd i'r cyfeiriad yma yn ei gwneud hi'n rhwyddach i gyfiawnhau hynny.

I wneud y gorau o'r cynlluniau newydd 'ma, oes angen i ni newid ein meddylfryd? Dwi'n cofio, dwi'n meddwl mai Michael Gove a ddywedodd, pan oedd o'n ysgrifennydd DEFRA, rhai blynyddoedd yn ôl ar lwyfan Cynhadledd Ffermio Rhydychen. Roedd o'n annog y gynulleidfa, annog ffermwyr i 'consider the environment as an additional crop', i feddwl am ddarparu nwyddau cyhoeddus, gwneud gwaith sy'n gwella'r amgylchedd ac arian gallwch ei gael trwy gynlluniau drwy wneud hynny yn gwnw ychwanegol. Mae'n allbwn i'r busnes.

Ydy, a dwi'n tueddi i'w weld o mewn ffordd sy'n debyg i hynny. Mae yna gynlluniau amgylcheddol wedi bod yma yng Nghymru yn y gorffennol lle'r oedd ffermwyr yn ymateb yn gadarnhaol. Y gwir amdani yw bod yna gyfran eithaf sylweddol o ffermwyr sy'n gwerthfawrogi gwarchod natur a chreu cynefinoedd ac ati. Mae nifer o ffermwyr eisoes yn gwneud hynny, ac mae hi'n iawn eu bod nhw'n cael cydnabyddiaeth ariannol am y gwaith maen nhw yn ei wneud. Dwi'n meddwl caiff y polisiau yma eu trefnu fel eu bod yn cael eu gweithredu'n fasnachol, well bydd rhaid iddyn nhw weithredu'n fasnachol neu bydd ffermwyr ddim yn cymryd rhan ynddyn nhw, yna mi ddylen nhw fod yn ffynhonnell incwm newydd sy'n mynd i alluogi'r busnesau i barhau a chael eu cynnal, sy'n hynod o bwysig wrth gwrs. Nid yn unig o ran cynhyrchu bwyd ac edrych ar ôl cynefinoedd ond am resymau cymdeithasol sydd yn bwysig ym mhob rhan o Gymru, ond yn sicr yn y rhannau lle mae'r iaith a diwylliant mor bwysig ac yn cael eu cynnal gan ffermwyr a'u teuluoedd.

Felly'r gyfrinach wedyn o ran y busnes yw ceisio manteisio ar y ffynhonnell newydd o incwm am waith amgylcheddol, a drwy fod yn effeithlon wrth werthu bwyd mewn ffordd draddodiadol a gwneud y gorau o'r ddau beth yw'r nod.

Dyna yw'r nod, ond mae hi'n eithriadol o bwysig fod y polisiau newydd 'ma yn mynd i ddod yn hygyrch i ffermwyr ac yn hawdd cael gafael ar yr arian 'ma. Y gwir yw, mae yna gymaint o ffermydd mor ddibynnol ar y taliad sengl. Os nad yw'r arian yna yn mynd i fod ar gael yn gymharol rwydd heb olygu costau sylweddol ychwanegol, yna mae o'n mynd i fod yn anodd i nifer o fusnesau amaethyddol.

Yn ddiddorol, ddaru chi gyfeirio'n gynharach am y bwlch sydd rhwng y traean uchaf a'r isaf o ran perfformiad, ac eich bod yn credu bod y bwlch yn ymestyn ac yn mynd yn fwy. Ydych chi'n credu fod y newidiadau yn y polisi yn mynd i addasu pethau rhyw fymryn? Yn mynd i newid y cydbwysedd hynny rhyw faint?

Dwi ddim yn siŵr am hynny, ac mae'n ddiddorol pan oeddech chi'n sôn am y traean uchaf a'r isaf, ac mi fyddwn ni'n edrych ar bethau yn yr un ffordd. Y gwir amdani yw yn y byd, be mae rhywun yn dod ar ei draws yw nid yn unig y traean uchaf neu'r chwarter uchaf, ond y 10%, 5%, yr 1% uchaf. Mae'r un peth yn wir ar y pegwn arall. Dwi'n meddwl mai'r hyn sydd wirioneddol galonogol yw pan mae rhywun yn edrych ar y rhai sy'n gwneud y swydd yn wirioneddol dda. Dwi'n eithaf sicr fod y rhai gorau yng Nghymru gystal â rhywun yn unrhyw le yn y byd. O ran y bwlch yn lleihau, dwi'n ofni nad ydi o, i raddau i'r gwrthwyneb, be ydw i'n ei weld yw'r goreuon yn parhau i wella ac efallai'r rhai gwanaf yn gyndyn i newid. Dyna ydi'r ofn neu'r bygythiad.

Beth yw'r nodweddion sy'n gyson yn y 5% gorau? Beth sy'n eu gwneud nhw'n llawer mwy effeithiol yn yr hyn maen nhw yn ei wneud? Oes yna unrhyw beth sy'n gyffredin ynddyn nhw?

Wel, mae hwnnw'n gwestiwn mawr. Mae yna dipyn o ystadegau, ac os edrychwch chi arnyn nhw, mae llwydd fel y Brifysgol yn Aberystwyth wedi bod yn cyhoeddi ystadegau fel hyn ers degawdau. Roeddem ni ar y fferm adref yn cymryd rhan yn yr arolwg busnes fferm am flynyddoedd, ac mae'n debyg fod AHDB a nifer o gyrff erbyn hyn yn cyhoeddi'r wybodaeth yma. Yr hyn mae rhywun yn ei weld yw bod y rhai gorau gydag allbwn uwch a'r mewnbwn yn is hefyd. Felly, mae rhywun yn gorfod edrych yn bellach na hynny. Y gwir yw, yr hyn a fydd yn dylanwadu ar effeitholrwydd y busnes yw'r gallu neu agwedd y bobl sy'n rhedeg y busnes. Dwi'n meddwl weithiau ei bod hi'n hawdd dychmygu mai'r hyn sy'n arwain at lwyddiant yw'r fferm, hynny yw lle mae'r tir, ansawdd y tir, ydy nhw'n denantiaid neu'n benthyg nifer o'r arian? Sut fath o bridd sydd ganddyn nhw? Yr holl bethau 'ma. Wrth gwrs, mae'r rhain yn dylanwadu, ond yr hyn sy'n dylanwadu llawer mwy yw gallu ac agwedd y rhai sy'n rhedeg y fferm.

Dwi'n credu mai dyna yw un o'r prif negeseuon a ddaeth allan o'r adroddiad yr AHDB rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd rheolaeth y fferm yr un mor bwysig ag ansawdd y fferm, a hynny oedd un o'r prif bethau a oedd yn gwneud y gwahaniaeth o ran y perfformiad, penderfyniadau a'r meddylfryd o barhau i wella. Mae nifer ohonyn nhw hefyd yn cymryd rhan mewn cynlluniau meincnodi. Sut bysech chi'n esbonio pwysigrwydd meincnodi i fusnes fferm? A yw hynny wedi bod yn arwyddocaol mewn busnesau yr ydych chi wedi bod gweithio arnyn nhw er mwyn gweld gwelliant cynyddol o flwyddyn i flwyddyn?

Pe byddai'n rhaid i mi ddewis un peth sy'n gallu gwneud y newid mwyaf i lwyddiant fferm, meincnodi yw hwnnw. Rydw i wedi gweld busnesau wedi cael eu trawsnewid drwy gymharu eu perfformiad gyda ffermwyr eraill. Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o'i wneud o, ac mae gwahanol ffyrdd yn siwtio gwahanol bobl. Y ffordd fwyaf effeithiol y rwyf i wedi ei weld yw lle mae yna griw gymharol fechan o ffermwyr yn dod at ei gilydd, ac yn cael yr hyder i rannu gwybodaeth ariannol, i herio a chefnogi ei gilydd. Mae o'n fwy cyffredin mewn rhai sectorau nag eraill. Mae o'n gyffredin iawn yn y byd ieir, yn fwy cyffredin erbyn hyn yn y sector llaeth, yn llai cyffredin yn y sector biff a defaid. Fedrai feddwl am enghreifftiau yn y byd cynhyrchu llaeth. Fedrai feddwl am un fferm lle ddaru'r costau cynhyrchu ostwng 5c y litr. Mae 5c y litr yn ffigwr anferthol, ac nid oedd hynny ar sail

cyngor gan arbenigwr, ac mae yna le'n sicr am hynny hefyd, ond roedd hwn ar sail y fferm yn edrych ar beth oedd pobl eraill a oedd yn fwy llwyddiannus yn ariannol wedi ei wneud, ac wedyn sylweddoli a chael agoriad llygaid. Nhw eu hunain ddaru droi'r busnes, ond roedd rhaid iddynt gael y weledigaeth fod hynny'n bosib, ac efallai i ail feddwl sut roedd rhywun yn mesur llwyddiant ar y fferm. Roedd hon yn fath o fferm, pe baech yn edrych o'r tu allan byddech yn ei hystyried hi'n fferm wirioneddol llwyddiannus o ran safon yr anifeiliaid a'r cnydau ac ati, ac mi roedd hi. Ond, pan roedd rhywun yn edrych ar y cyfrifon nid oedd pethau'n edrych mor iach. Mi ddaru nhw lwyddo i newid pethau eu hunain drwy sylweddoli beth oedd yn bosib a drwy gydweithio gyda ffermwyr eraill oedd ganddyn nhw barch tuag atynt. Mae'n beth ardderchog i'w weld. Mae rhywun yn gweld mwy a mwy, yn enwedig mewn ffermwyr ifanc, yn gyfforddus wrth wneud hyn ac yn gweld y byd sy'n dod ohono fo. Mae hynny'n rhywbeth mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn ei hyrwyddo ers peth amser, ac mi fyswn i'n annog i unrhyw un sydd eisoes ddim wedi ymaelodi. Dwi'n gwybod ei fod o'n cymryd dipyn o hyder, ond fedrai ddim meddwl am unrhyw ffermwr sydd ddim wedi mentro ac wedi difaru.

Nawr, dwi am droi'n sylw at eich rhagolygon Euryrn, ar gyfer y gwahanol sectorau. Ddaru chi gyfeirio atyn nhw yn gynharach – llaeth, cig coch a dofednod yng Nghymru. Os ydych chi'n edrych yn ôl dros y flwyddyn sydd wedi bod, mae hi wedi bod yn gyfnod cythryblus iawn. Dwi'n cofio sôn a siarad gyda rhai ffermwyr a'u bod wedi gorfod taflu llaeth i ffwrdd nôl ym mis Mawrth ac Ebrill y llynedd yn sgil yn pandemig wrth gwrs, ac mae'r prisiau wedi bod yn gyfnewidiol ac wedi dod ychydig yn well erbyn hyn. Mae hi wedi bod yn flwyddyn ddiddorol iawn o ran y cig coch. Mae hi wedi bod yn gyfnod llawer mwy llwyddiannus i ffermwyr cig eidion a'r prisiau wedi gwella i'r hyn yr oedden nhw nôl yn 2019. Mae yna brisiau da iawn wedi cael eu hadrodd am wŷn a chig oen eleni. Wrth gwrs, yng nghanol hyn i gyd mae yna drafodaethau masnach wedi bod gydag Ewrop. Rydym wedi llwyddo i gael cytundeb masnach erbyn hyn ac mae gennym ychydig mwy o hyder ond nid ydym yn siŵr o'r goblygiadau yn y porthladdoedd. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur, ac ar ben hynny mae effeithiau COVID-19, felly mae yna ddigon i'w ddadansoddi yma, Euryrn. Beth yw eich gweledigaeth chi i'r diwydiant? Pe gawn ni edrych ar bob sector yn ei dro gan ddechrau gyda'r sector llaeth. Beth ydych chi'n ei feddwl yw'r dyfodol am hynny dros y flwyddyn nesaf?

Gan gyfeirio at yr effaith gafodd COVID-19 yn y gwanwyn, mi ddaru nifer gymharol fechan gael cyfnod anodd, yn arbennig y rhai a oedd yn cyflenwi'r farchnad llaeth, cyflenwi caffis a llefydd felly. Mi ddaru'r gadwyn fwyd allu newid ac addasu yn weddol sydyn. Mae'n rhaid i mi gyfaddef, dwi'n teimlo fod y potensial i Gymru gynhyrchu llaeth yn uchel eithriadol. Mae yna gymint o'n tir ni sydd yn addas ar gyfer cynhyrchu llaeth. Mae'n galonogol fod yna nifer o ffermydd yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi cychwyn cynhyrchu llaeth o borfa, a mwyafrif wedi gwneud hynny'n llwyddiannus iawn. Mae'n hanfodol fod y farchnad yno wrth gwrs, a bod y gallu i brosesu llaeth yno felly. Dwi'n meddwl fod y potensial ar gyfer y sector llaeth i ni yma yng Nghymru yn sylweddol.

A beth am gîg coch felly?

Pan mae rhywun yn edrych ar y sector cig coch, mae'r penderfyniad o gael cytundeb hefo'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn un eithriadol o bwysig oherwydd roedd y bygythiad i'r sector wŷn, fel mae pawb yn ei wybod, yn sylweddol oherwydd y golled buasai'n rhaid ei dalu pe byddai Prydain ac Ewrop ddim wedi dod i gytundeb. Felly, mae'r newyddion a ddaeth i ni cyn y Nadolig ynglŷn â'r cytundeb masnach yn eithriadol o bwysig i'r sector defaid. Dwi'n pryderu mwy am y sector cîg coch am ddau reswm. Un rheswm yw bod y sector bîff a defaid yn fwy dibynnol ar y taliad sengl, ac rydym eisoes wedi sôn mai ymhen amser fydd y taliad sengl yna yn gostwng a'r cymorth daliadau yn newid. Mi fydd peth bygythiad i'r sector yn dibynnu ar unrhyw gytundebau masnach newydd fydd Prydain yn cytuno hefo gwledydd eraill mewn rhannau eraill o'r byd, tu allan i Ewrop. Mae rhywun yn meddwl am America - Gogledd America a De America ac Awstralia efallai. Mae'r rhain i gyd yn wledydd lle mae yna gynnyrch amaethyddol, a'u costau cynhyrchu nhw yn llawer is na rhai ni. Felly, mae yna fwy o fygythiad dwi'n meddwl i'r sector cîg coch ac mai hyn efallai yn fwy fyth o reswm i

sicrhau fod y cynnyrch yma yng Nghymru mor effeithiol ag sy'n bosib, ac ein bod yn gallu cael premiwm am y cynnyrch yr ydym yn ei gynhyrchu.

A beth felly am ddofednod? Bu yna gynnydd aruthrol yn y galw am wyau y llynedd yn dilyn y cyfnodau clo gyda phobl yn coginio adref. A yw hynny wedi gwneud i bethau edrych ychydig yn well i'r sector yna?

Mae yna gynnydd sylweddol iawn wedi bod yn y niferoedd o wyau sydd yn cael eu cynhyrchu yma yng Nghymru. Mae'r sector ddofednod yn sicr, yr ochr cynhyrchu wyau, wedi tyfu i fod yn rhan bwysig o amaethyddiaeth yng Nghymru ac wedi galluogi nifer o ffermydd, yn arbennig yn y canolbarth, i ddyfod yn fusnesau proffidiol iawn. Mae'n hanfodol bwysig fod yna alw ar gyfer y cyflenwad ychwanegol, ond gan fod pob un sydd yn y sector yna, eu bod yn mynd fwy i'r maes 'wyau maes', mae'r cynnydd yn y galw am wyau, yn arbennig wyau maes, yn parhau. Mae'n ffaith bod yr archfarchnadoedd i gyd wedi dweud eu bod nhw'n mynd mwy tuag at yr wyau maes, ac yn gyfan gwbl ar ddiwedd y degawd yma. Dwi'n meddwl fod hynny'n ein galluogi ni i fod yn gymharol ffyddiog ar gyfer dyfodol y sector yma, cyn belled ein bod yn sicrhau fod y cyflenwad yn parhau i gyd-fynd gyda'r galw sydd.

Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gyfeirio at eich gwaith yn y banc HSBC. Beth yw agwedd y banc tuag at y diwydiant? Oes yna hyder yn y dyfodol? Ydych chi'n weddol hyderus bydd y banc yn gallu cefnogi busnesau yn ystod y cyfnod ansicr sydd o'm blaenau? Hefyd, oes yna gefnogaeth o fewn y banc i'r genhedlaeth nesaf o amaethwyr?

Oes. Mae'r sector amaethyddol yn sector bwysig iawn i'r banc. Mae'r diwydiant, yn gyffredinol trwy Brydain, yn benthyc dim yn bell o £20 biliwn. Felly, mae amaethyddiaeth yn bwysig i'r banciau, ac yn sicr yn rhan ohonom ni yn HSBC. Rydym yn awyddus i barhau gyda'r gefnogaeth i'r diwydiant ac edrych ar ôl y cwsmeriaid sydd gennym ac yn gobeithio parhau i dyfu'r busnes. Mi roeddech chi'n sôn am ddyfodiad, mae'n un o rannau gorau fy ngwaith i i ddweud y gwir pan mae rhywun yn gallu cefnogi pobl newydd sydd yn dod i'r diwydiant. Dydi o ddim yn hawdd. Dydi o erioed wedi bod yn hawdd. Ond, dydi o ddim yn amhosib! Mae yna enghreifftiau nodedig yma yng Nghymru o ffermwyr ifanc, gymharol ifanc sydd wedi dod o du allan y diwydiant ac wedi cael llwyddiant eithriadol. Mae'n braf gallu cefnogi pobl felly.

I gloi, Euryn. Sut fydddech chi'n disgrifio ffermwr llwyddiannus? Rydym wedi cyfeirio sawl tro yn y drafodaeth yma am y nodweddion pwysig, a hefyd am y gallu i weld newid a bod yn effeithlon gyda'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnesau. Os pe bydddech yn gorfod rhoi rhyw fath o ddiffiniad neu esboniad o'r hyn sy'n gwneud ffermwr llwyddiannus, sut fydddech chi'n gwneud hynny?

Mae hynny'n gwestiwn da, ond yn un anodd. Does yna ddim 'blue print', ond yr hyn a fyddwn i'n ei edrych amdano o safbwynt busnes a masnachol yw bod rhaid i ffermwr llwyddiannus fod yn flaengar yn eu hagwedd, i fod yn barod i edrych ar dechnoleg newydd ac i wneud pethau newydd. Yn naturiol, dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig eu bod nhw'n edrych ar bethau mewn ffordd fasnachol gan fod yn ymwybodol iawn o'u costau, a'r ffocws yna ar gynhyrchu elw, arian, tyfu'r busnes a sicrhau fod yna unrhyw fuddsoddiad yn y busnes yn gynaliadwy. Dwi'n meddwl fod yna elfen o edrych ar y farchnad a sut maen nhw'n trin a thrafod eu cwsmeriaid, y siopwyr a hefyd y proseswyr a chydweithio gydag eraill yn y gadwyn fwyd? Dwi'n meddwl fod y rhain i gyd yn bwysig. Hefyd, i fod yn agored i gyfleoedd ac i edrych ymlaen mewn ffordd fasnachol.

Euryn, mae hwnna'n ateb da i'r cwestiwn, ac nid oes ateb cywir neu anghywir i'r cwestiwn. Mae'n agored i unrhyw un i feddwl am sut y byddent yn disgrifio.

Nid oes ateb cywir. Dwi'n meddwl fod yna ambell i ateb anghywir, ond mae hynny'n drafodaeth arall ar gyfer rhywbryd eto efallai.

Yn bendant. Euryon Jones, mae hi wedi bod yn bleser eich cael chi ar y podlediad. Sgwrs hynod o ddiddorol. Dwi'n gwybod ei fod o'n gyfnod heriol i'r diwydiant, ond hefyd mae'n gyfnod cyffrous iawn. Pan mae pethau'n newid mae yna gyfleoedd newydd yn dod hefyd, ac mae'n rhaid i ni gofleidio'r cyfleoedd hynny pan ddaw. Euryon, diolch unwaith eto a dwi'n siŵr y cawn gyfle eto i'ch cael chi ar y podlediad yn y dyfodol, ond am y tro yma, hwyl fawr i chi a diolch yn fawr.

Croeso. Diolch.

Cofiwch fod cymorthefydd un-i-un ar gael trwy Cyswllt Ffermio. Mae cymhorthfa yn gyfle i gael cyngor gyda ymgynghorydd arbenigol ar eich busnes, maent yn awr o hyd ac ar gael yn ddigidol nail ai dros y ffôn neu drwy gyfarfod fideo. Gallwch gael cyngor ar adolygu perfformiad eich busnes, trafod cynlluniau busnes, meincnodi neu adolygu costau cyffredinol. Os oes angen cyngor pellach arnoch chi, yna mae yna opsiwn hefyd am Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio. Felly cysylltwch â thim Cyswllt Ffermio i drafod beth sydd yn addas i'ch anghenion.

Dyna ni, rydym wedi cyrraedd diwedd pennod 34, byddwn yn ôl ymhen pythefnos gyda llawer mwy i'w drafod ond yn y cyfamser peidiwch ag anghofio tanysgrifio ar ba bynnag blatfform yr ydych yn ei ddefnyddio i wneud yn siŵr nad ydych yn colli allan ar unrhyw bennod o bodlediad Clust i'r Ddaear. Felly, ar ran y tim yn Cyswllt Ffermio, a finnow Aled Jones, diolch am wrando a hwyl am y tro.